

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 15fed Mai, 2017, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.45 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Glenys Williams (Is-Gadeirydd)  
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Ifor Owen, Glyn Roberts, Harry Richards

### 7. **DERBYN SWYDD**

**Bu i'r aelodau** etholwyd arwyddo Datganiad Derbyn Swydd a'u bod yn parchu'r Côd Ymddygiad.

### 8. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd y Cadeirydd** yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd am yr anrhydedd o fod yn Gadeirydd am y flwyddyn 2017/18.

### 9. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflen.

### 10. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWDYD 10fed EBRILL, 2017**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Ebrill, 2017.

#### **MATERION YN CODI**

#### a) **Eitem 107 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (ch) Eitem 104 Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor**

**Cyflwynwyd** adroddiad gan y Clarc fod Un Llais Cymru fod achos y Cyngor hwn yn wyneb i ni dderbyn anfoneb 'annealladwy o uchel' wedi cael ei anfon ymlaen i Deryck Evans yn Swyddfa Archwilio a byddant yn ymateb i ni cyn gynted a bydd unrhyw wybodaeth i law.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

#### b) **Eitem 110 Materion Iechyd**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn galwad ffôn gan Dr. O.G. Morris o Feddygfa Rhydbach ac hefyd o Gyngor Iechyd Cymuned. Rhoddodd

gefndir y galwadau i'r aelodau ond oherwydd cyfrinachedd ni gynhwysir y wybodaeth yn llawn yn y cofnodion hyn.

### **Penderfynwyd**

- (1) Gwahodd Dr. O.G. Morris i gyfarfod mis Mehefin o'r Cyngor (oherwydd amgylchiadau 'roedd wedi methu dod i gyfarfod mis Ebrill.
- (2) Gwahodd Mrs. Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned i gyfarfod o'r Cyngor.

#### 11. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw gais.

#### 12. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen.

#### 13. **MATERION FFYRDD**

### **Penderfynwyd**

- (a) Gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio Llwybr Bach, Botwnnog a Llwybr Pengopa.
- (b) Anfon at yr Adran Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd i ofyn iddynt adnewyddu camfa Pengopa, Bryncroes ac hefyd fod angen camfa newydd ger Argraig, Sarn.
- (c) Anfon at y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd yn tynnu ei sylw fod y drych ger Pwllmaen, Penygroeslon wedi cael ei falurio a gofyn am ei gael adnewyddu.

#### 14. **AWDURDOD I DALU**

Ni dderbyniwyd unrhyw anfoneb i'w thalu.

#### 15. **Y PWYLLGOR SAFONAU – PENODI AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL**

**Cyflwynwyd** llythyr Sion Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) Cyngor Gwynedd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor uchod.

**Penderfynwyd** nodi'r gwahoddiad.

#### 16. **CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL AHNE LLYN**

**Cyflwynwyd** llythyr gan Reolwr Gwasanaeth AHNE Llyn yn gwahodd y Cyngor i ethol aelod i fod ar y Cyd-bwyllgor uchod.

**Penderfynwyd** ethol Y Cyngorydd Glyn Roberts.

17. **ETHOLIADAU CYNGHORAU CYMUNED A THREF**

**Cyflwynwyd** llythyr Glarc Cyngor Cymuned Llanengan ynglyn a'r drefn o gyflwyno ffurflenni enwebu yn Swyddfeydd y Cyngor ym Mhwillheli, a'r ffaith i rai gael ar ddeall "bod yn rhaid mynd a nhw i Gaernarfon, gan nad oedd neb yn eu derbyn yn Nwyfor."

Nid oedd yr un o aelodau'r Cyngor wedi derbyn yr ymateb yma a bu iddynt hwy gael eu rhoi i fewn yn y Swyddfa ym Mhwillheli heb unrhyw drafferth.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth i Glarc Cyngor Cymuned Llanengan.

18. **AELODAETH Y CYNGOR**

**Gan fod pum sedd wag** ar y Cyngor penderfynwyd symud ymlaen i gyfethol fel a ganlyn:

Botwnnog	David Brunelli a Gwenan Griffith
Sarn Mellteyrn	Elin Hughes
Bryncroes	Michael Strain a Dylan Parry Jones

Bydd y pum aelod newydd yn cael eu gwahodd ar y Cyngor ac os yn derbyn byddant yn arwyddo'r datganiad derbyn swydd a pharchu'r Côt Ymddygiad yng nghyfarfod mis Mehefin.